Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

**2025 Rhif 930 (Cy. 159)**

# PENSIYNAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMRU

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2025

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") sy'n nodi Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 ("Cynllun Pensiwn 2015").

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2025 ac nid oes iddynt effaith ôl-weithredol.

Mae rheoliadau 3, 4 a 9 yn diwygio Cynllun Pensiwn 2015 i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â hawlogaethau aelodau'r cynllun yn ystod cyfnodau o absenoldeb profedigaeth rhiant.

Mae rheoliadau 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn diwygio Cynllun Pensiwn 2015 i ddarparu ar gyfer cyfraddau cyfraniadau aelod newydd a dull newydd o bennu cyfraddau cyfraniadau aelodau o 1 Medi 2025 ymlaen.

Mae rheoliad 6 yn mewnosod rheoliad 119A yn Rheoliadau 2015 sy'n cyflwyno dull newydd o bennu cyfraddau cyfraniadau aelodau o fewn Cynllun Pensiwn 2015 sy'n seiliedig ar strwythur haenau yn hytrach nag ystod tâl pensiynadwy. Mae'r dull newydd hwn yn diffinio rolau aelodau'r cynllun at ddiben cyfraddau cyfraniadau aelodau ac yn darparu y bydd y rolau hyn yn perthyn i 1 o 5 haen, y pennir cyfraddau cyfraniadau aelodau yn eu herbyn o 1 Medi 2025 ymlaen. Mae'r dull wedi ei ddiweddaru yn ei gwneud yn glir y bydd diffoddwyr tân wrth gefn a diffoddwyr

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

tân gwirfoddol, ni waeth beth fo'u rôl, yn aros yn haen 1 bob amser wrth bennu'r cyfraddau cyfraniadau aelod sy'n gymwys. At ddibenion rheoliad newydd 119A yn unig, nid yw'r diffiniad o ddiffoddwr tân rheolaidd yn cynnwys rolau rheolwr criw, rheolwr gwylfa, rheolwr gorsaf, rheolwr grŵp, rheolwr ardal, prif swyddog tân cynorthwyol, dirprwy brif swyddog tân na phrif swyddog tân.

Gan fod rheoliadau 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 yn newid elfen warchodedig o'r cynllun a gyfansoddir gan Reoliadau 2015 (fel y diffinnir "protected elements" yn adran 22(5) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013), mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny (neu â chynrychiolwyr y personau hynny) y mae'n ymddangos yn debygol i Weinidogion Cymru yr effeithir arnynt gan y Rheoliadau hyn, gyda golwg ar ddod i gytundeb. Mae Gweinidogion Cymru hefyd wedi gosod adroddiad gerbron Senedd Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 930 (Cy. 159)

# PENSIYNAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYMRU

# GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

## Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *28 Gorffennaf 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *30 Gorffennaf 2025* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1) a (2)(f), 2(1), 3(1), (2)(a) a (3)(a) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 ("Deddf 2013")(**1**), a pharagraff 6(b) o Atodlen 2 a pharagraffau 9(a) a (b) o Atodlen 3 iddi.

Yn unol ag adran 21(1) o Ddeddf 2013, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â chynrychiolwyr y personau hynny y mae'n ymddangos yn debygol i Weinidogion Cymru yr effeithir arnynt gan reoliadau 3, 4 a 9 o'r Rheoliadau hyn.

Yn unol ag adran 22(2)(a) o Ddeddf 2013, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny (neu â chynrychiolwyr y personau hynny) y mae'n ymddangos yn debygol i Weinidogion Cymru yr effeithir arnynt gan reoliadau 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11

(**1**) 2013 p. 25. Diwygiwyd adran 3 gan adran 94(2) i (6) o Ddeddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus a Swyddi Barnwrol 2022 (p. 7).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

o'r Rheoliadau hyn, gyda golwg ar ddod i gytundeb â hwy.

Yn unol ag adran 22(2)(b) o Ddeddf 2013, mae Gweinidogion Cymru wedi gosod adroddiad gerbron Senedd Cymru mewn cysylltiad â rheoliadau 5, 6, 7, 8, 9, 10 ac 11 o'r Rheoliadau hyn.

Yn unol ag adran 3(5) o Ddeddf 2013, gwneir y Rheoliadau hyn gyda chydsyniad y Trysorlys.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Medi 2025.

**Diwygio Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015**

**2.** Mae Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015(**1**) wedi eu diwygio yn unol â rheoliadau 3 i 11.

**3.** Yn rheoliad 3 (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "absenoldeb cysylltiedig â phlentyn"—

(i) hepgorer "neu" ar ddiwedd paragraff (e);

(ii) ar ôl paragraff (f) mewnosoder—

", neu

(g) absenoldeb profedigaeth rhiant;";

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"mae i "absenoldeb profedigaeth rhiant" yr ystyr a roddir i "parental bereavement leave" yn rheoliad 3 o Reoliadau Absenoldeb Profedigaeth Rhiant 2020(**2**);";

(c) yn y diffiniad o "tâl statudol"—

(i) hepgorer "neu" ar ddiwedd paragraff (c);

(ii) ar ôl paragraff (d) mewnosoder—

", neu

(e) tâl profedigaeth rhiant statudol o fewn yr ystyr a roddir i "statutory parental bereavement pay" yn adran 171ZZ6 (hawlogaeth) o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992(**3**);".

---

(**1**) O.S. 2015/622 (Cy. 50); yr offeryn diwygio perthnasol yw O.S. 2018/576 (Cy. 103).

(**2**) O.S. 2020/249.

(**3**) 1992 p. 4.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**4.** Yn rheoliad 27(2) (ystyr “tâl pensiynadwy tybiedig”)—

(a) yn is-baragraff (c), ar ôl “absenoldeb mamolaeth ychwanegol,” mewnosoder “absenoldeb profedigaeth rhiant,”;

(b) yn is-baragraff (e), yn lle “neu absenoldeb tadolaeth ychwanegol” rhodder “, absenoldeb tadolaeth ychwanegol neu absenoldeb profedigaeth rhiant”.

**5.** Yn rheoliad 119 (cyfraniadau aelodau)—

(a) ym mharagraff (2)—

(i) yn lle “y golofn briodol ar gyfer y flwyddyn” rhodder “yr ail golofn ar gyfer y cyfnod a ddatgenir”;

(ii) yn y pennawd “Cyfradd gyfraniadau o 1 Ebrill 2018 ymlaen” yn y tabl—

(aa) hepgorer y gair “o”;

(bb) yn lle “ymlaen” rhodder “- 31 Awst 2025”.

(b) ym mharagraff (8), ar ôl “o dan y rheoliad hwn” mewnosoder “, rheoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)”.

**6.** Ar ôl rheoliad 119 mewnosoder—

“**Cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen**

**119A**.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliadau 120 i 122 (cyfraniadau yn ystod absenoldebau), rhaid i aelod actif o’r cynllun hwn dalu cyfraniadau ar ei dâl pensiynadwy blynyddol i’r cynllun mewn cysylltiad â chyflogaeth gynllun ar y gyfradd gyfraniadau sy’n gymwys i haen yr aelod yn y cyfnod tâl sy’n cynnwys 1 Ebrill ar gyfer y gyflogaeth honno (neu, yn achos aelod actif y mae ei aelodaeth yn dechrau ar ôl 1 Ebrill mewn unrhyw flwyddyn, i’r haen yr oedd yr aelod ynddi ar ddechrau’r aelodaeth honno).

(2) Mae’r gyfradd gyfraniadau sy’n gymwys i gyflogaeth gynllun fel y’i pennir yn y tabl canlynol, gyda’r gyfradd gyfraniadau a bennir yn y drydedd golofn o’r cyfnod a bennir yn y drydedd golofn i’w hystyried yn gymwys i’r haen a bennir yn y golofn gyntaf y mae rôl yr aelod actif a bennir yn yr ail golofn yn perthyn iddi:

| *Haen* | *Rôl* | *Cyfradd gyfraniadau o 1 Medi 2025 ymlaen* |
|---|---|---|
| 1 | Diffoddwr Tân Rheolaidd<br>Diffoddwr Tân Wrth Gefn | 13.0% |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

| | | |
|---|---|---|
| | Diffoddwr Tân Gwirfoddol | |
| 2 | Rheolwr Criw<br>Rheolwr Gwylfa | 13.2% |
| 3 | Rheolwr Gorsaf<br>Rheolwr Grŵp | 13.7% |
| 4 | Rheolwr Ardal | 14.2% |
| 5 | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol<br>Dirprwy Brif Swyddog Tân<br>Prif Swyddog Tân | 14.5% |

(3) Pan fo newid yn digwydd i gyflogaeth gynllun, neu newid perthnasol sy'n effeithio ar rôl yr aelod yn ystod blwyddyn ariannol a bod y rôl ddiwygiedig yn perthyn i haen cyfradd gyfraniadau wahanol, rhaid i'r rheolwr cynllun benderfynu bod rhaid cymhwyso'r gyfradd honno a rhaid i'r rheolwr cynllun roi gwybod i'r aelod pa gyfradd gyfraniadau a gymhwysir ac o ba ddyddiad y'i cymhwysir.

(4) Pan fo'r rheolwr cynllun wedi penderfynu o dan baragraff (3) fod cyfradd gyfraniadau wahanol yn gymwys, rhaid i'r aelod dalu cyfraniadau yn ôl y gyfradd honno ar y tâl pensiynadwy y mae'r aelod hwnnw'n ei gael ar yr adeg honno.

(5) Yn y rheoliad hwn—

mae i "diffoddwr tân gwirfoddol" ("*volunteer firefighter*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 (dehongli);

mae i "diffoddwr tân rheolaidd" ("*regular firefighter*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 (dehongli), ond nid yw'n cynnwys diffoddwr tân a gyflogir yn rheolwr criw, rheolwr gwylfa, rheolwr gorsaf, rheolwr grŵp, rheolwr ardal, prif swyddog tân cynorthwyol, dirprwy brif swyddog tân na phrif swyddog tân;

mae i "diffoddwr tân wrth gefn" ("*retained firefighter*") yr ystyr a roddir yn rheoliad 3 (dehongli);

ystyr "dirprwy brif swyddog tân" ("*deputy chief fire officer*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod yn ddirprwy brif swyddog tân—

(a) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(b) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), ac

(c) ac eithrio ar sail dros dro;

ystyr "prif swyddog tân" ("*chief fire officer*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod yn brif swyddog tân—

(a) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(b) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), ac

(c) ac eithrio ar sail dros dro;

ystyr "prif swyddog tân cynorthwyol" ("*assistant chief fire officer*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod yn brif swyddog tân cynorthwyol—

(a) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(b) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), ac

(c) ac eithrio ar sail dros dro;

ystyr "rheolwr ardal" ("*area manager*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod—

(a) mewn rôl rheolwr ardal a nodir yn "Fire and Rescue Services Rolemaps" a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol ym mis Medi 2005,

(b) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), a

(d) ac eithrio ar sail dros dro;

ystyr "rheolwr criw" ("*crew manager*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod—

(a) mewn rôl rheolwr criw a nodir yn "Fire and Rescue Services Rolemaps" a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol ym mis Medi 2005,

(b) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(c) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), a

(d) ac eithrio ar sail dros dro;

ystyr "rheolwr gorsaf" ("*station manager*") yw person (P) a gyflogir (pa un ai'n amser-cyflawn neu'n rhan-amser) gan awdurdod—

(a) mewn rôl rheolwr gorsaf a nodir yn "Fire and Rescue Services Rolemaps" a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol ym mis Medi 2005,

(b) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(c) ar delerau y mae'n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy'n briodol i'w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu'n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), a

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(d) ac eithrio ar sail dros dro;

ystyr “rheolwr grŵp” (“*group manager*”) yw person (P) a gyflogir (pa un ai’n amser-cyflawn neu’n rhan-amser) gan awdurdod—

(a) mewn rôl rheolwr grŵp a nodir yn “Fire and Rescue Services Rolemaps” a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol ym mis Medi 2005,

(b) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(c) ar delerau y mae’n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy’n briodol i’w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu’n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), a

(d) ac eithrio ar sail dros dro;

ystyr “rheolwr gwylfa” (“*watch manager*”) yw person (P) a gyflogir (pa un ai’n amser-cyflawn neu’n rhan-amser) gan awdurdod—

(a) mewn rôl rheolwr gwylfa a nodir yn “Fire and Rescue Services Rolemaps” a ddyroddwyd gan Gyd-gyngor Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol ym mis Medi 2005,

(b) ac eithrio yn ddiffoddwr tân wrth gefn neu ddiffoddwr tân gwirfoddol,

(c) ar delerau y mae’n ofynnol i P, neu y gall fod yn ofynnol i P, ymgymryd â gwaith ymladd tân odanynt neu, heb doriad ym mharhad y gyflogaeth honno, y gall fod yn ofynnol i P gyflawni dyletswyddau eraill sy’n briodol i’w rôl odanynt (pa un ai yn lle ymgymryd â gwaith ymladd tân neu’n ychwanegol at ymgymryd â gwaith ymladd tân), a

(d) ac eithrio ar sail dros dro.”

**7.** Yn rheoliad 120 (cyfraniadau yn ystod absenoldeb o’r gwaith oherwydd salwch, anaf, anghydfod undebol neu absenoldeb awdurdodedig)—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl “rheoliad 119 (cyfraniadau aelod)” mewnosoder “neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)”;

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) ym mharagraff (2), ar ôl "rheoliad 119 (cyfraniadau aelod)" mewnosoder "neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)";

(c) ym mharagraff (3), ar ôl "rheoliad 119 (cyfraniadau aelod)" mewnosoder "neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)";

(d) ym mharagraff (4), ar ôl "rheoliad 119 (cyfraniadau aelod)" mewnosoder "neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)".

**8.** Yn rheoliad 121(1) (cyfraniadau yn ystod absenoldeb o'r gwaith ar absenoldeb gwasanaeth lluoedd wrth gefn), ar y diwedd mewnosoder "neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)."

**9.** Yn rheoliad 122 (cyfraniadau yn ystod absenoldeb cysylltiedig â phlentyn)—

(a) ym mharagraff (1), ar ôl "rheoliad 119 (cyfraniadau aelod)" mewnosoder "neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)";

(b) ym mharagraff (3)—

(i) ar ôl "absenoldeb mabwysiadu ychwanegol" mewnosoder ", absenoldeb profedigaeth rhiant";

(ii) ar ôl "rheoliad 119 (cyfraniadau aelod)" mewnosoder "neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)".

**10.** Yn rheoliad 123(1) (didynnu a thalu cyfraniadau), ar ôl "reoliad 119 (cyfraniadau aelodau)" mewnosoder "neu reoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen)".

**11.** Yn rheoliad 132(e) (taliadau i mewn i gronfa bensiwn y diffoddwyr tân) ar ôl "reoliad 119 (cyfraniadau aelodau)," mewnosoder "rheoliad 119A (cyfraniadau aelod o 1 Medi 2025 ymlaen),".

Yr ydym yn cydsynio â gwneud y Rheoliadau hyn.

*Anna Turley*
*Nicholas Dakin*
Dau o Arglwydd Gomisiynwyr Trysorlys Ei Fawrhydi
28 Gorffennaf 2025

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
28 Gorffennaf 2025